

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

Adroddiad ar Fil Sgorio
Hylendid Bwyd (Cymru)

Hydref 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8242
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

Adroddiad ar Fil Sgorio
Hylendid Bwyd (Cymru)

Hydref 2012



Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw ymgymryd â swyddogaethau ac arfer pwerau'r pwyllgor cyfrifol a osodwyd allan yn Rheolau Sefydlog. Mae hyn yn cynnwys ystyried ac adrodd ar unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol ei natur o fewn neu'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



David Melding (Cadeirydd)

Dirprwy Lywydd
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Julie James

Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



Eluned Parrott

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
Rôl y Pwyllgor	6
Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).....	6
Cefndir	6
Y Bil	7
Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.....	7
Adran 2.....	7
Adran 3.....	7
Adran 5.....	8
Adran 6.....	8
Adran 7.....	8
Adran 11	9
Adran 14.....	9
Atodlen 1	9
Cychwyn	9
Safbwynt y Pwyllgor	9
Safbwynt cyffredinol	9
Adran 6(2).....	10
Atodlen 1	10
Tystion.....	12
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	13

Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a chasgliadau ategol:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod y pŵer yn Adran 6(2) sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau pa wybodaeth bellach y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd ei darparu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Tudalen 10

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod y pŵer yn Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 3, i ragnodi gwahanol derfynau ar gyfer y cosbau penodedig a gostyngol i'r rhai a nodir ar wyneb y Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Tudalen 11

Rôl y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (“y Pwyllgor”) yw cyflawni swyddogaethau’r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21,¹ ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Gweinidogion Cymru, neu sy’n gysylltiedig â hwy.
2. O fewn y cylch gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Mae’r Pwyllgor yn adrodd ynghylch a ddylai’r Cynulliad roi sylw arbennig i’r offerynnau yn unol ag ystod o seiliau a restrir yn y Rheolau Sefydlog.
3. Mae’r Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliâu’r Cynulliad ac ym Miliâu Senedd y Deyrnas Unedig sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu’r Cwnsler Cyffredinol, ac yn adrodd ar hynny.

Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

Cefndir

4. Ar 28 Mai 2012, cyflwynodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (“y Bil”), sy’n rhoi effaith i gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru.
5. Trafododd y Pwyllgor y Bil yn ei gyfarfod ar 28 Mai 2012 a chytunodd i graffu arno ymhellach gan ei fod yn cynnwys nifer o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.
6. Roedd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a’i swyddogion yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Llun 2 Gorffennaf 2012 . Ategwyd tystiolaeth lafar y Gweinidog gan wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarparwyd ar 18 Mehefin 2012.

¹ Rheolau Sefydlog y Pedwerydd Cynulliad - Cynulliad Cenedlaethol Cymru

7. Aseiniwyd y Bil i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fod yn destun gwaith craffu Cyfnod 1. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 5 Hydref 2012.

Y Bil

8. Mae'r Bil yn gosod gofyniad statudol ar awdurdodau bwyd i weithredu cynllun sgorio hylendid bwyd (sy'n cynnwys sgorio busnesau bwyd a gorfodi'r cynllun) ac yn rhoi dyletswydd ar fusnesau bwyd i arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn eu sefydliadau.

9. Bwriad y Bil yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth am safonau hylendid bwyd busnesau bwyd yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy hyddysg ynghylch ble i fwyta neu siopa am fwyd.

Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

10. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o bwerau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Cânt eu hegluro yn Rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol a osodwyd ochr yn ochr â'r Bil ac yn y Nodiadau Esboniadol sy'n ymddangos ar ddiwedd y Memorandwm hwnnw.

11. Mae Adran 24 o'r Bil yn darparu bod rheoliadau a gorchmynion a gaiff eu gwneud o dan y Bil i'w gwneud drwy offeryn statudol ac yn nodi gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") mewn perthynas â'r offerynau hynny.

12. Mae'r Bil yn rhoi'r pwerau a ganlyn i wneud is-ddeddfwriaeth:

Adran 2

13. Mae **Adran 2(6)(a)** yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau drwy **benderfyniad cadarnhaol** i ddiwygio'r diffiniad o sefydliadau busnes bwyd er mwyn lleihau neu ehangu'r categorïau o sefydiadau y mae'n ofynnol iddynt gael sgôr hylendid bwyd. Mae **Adran 2(6)(b)** yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad o awdurdod bwyd ac fe'u gwneir hefyd drwy **benderfyniad cadarnhaol**.

Adran 3

14. Mae **Adran 3(2)** yn darparu pŵer i wneud rheoliadau i ddod â sefydliadau a gafodd eu sgorio o dan gynllun gwirfoddol yr Asiantaeth

Safonau Bwyd o fewn cwmpas y cynllun gorfodol newydd drwy ganiatáu sgoriau hylendid bwyd newydd (statudol) ar gyfer y sefydliadau hynny yn seiliedig ar asesiadau o safonau hylendid bwyd sefydliad a gynhaliwyd cyn cychwyn y Bil. **Penderfyniad cadarnhaol**

15. Mae **Adran 3(3)(c)** yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau drwy **benderfyniad negyddol** sy'n rhagnodi ffurf y sticer sgorio hylendid bwyd y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd ei roi ac y mae'n rhaid i'r gweithredwr ei arddangos. **Mae Adran 3(3)(d)** yn bŵer **penderfyniad negyddol** i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi pa wybodaeth, ar wahân i'r hyn sy'n ofynnol o dan gymal 3(3)(a), (b) a (c), y mae'n rhaid i awdurdod bwyd ei hanfon at weithredwr y sefydliad.

16. Mae **Adran 3(5)** yn darparu pŵer i wneud rheoliadau drwy **benderfyniad cadarnhaol** sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi y gall rhai categorïau o sefydliadau gael eu heithrio o'r system sgorio.

Adran 5

17. Mae **Adran 5(4)** yn bŵer **penderfyniad negyddol** i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi'r ffurf y mae'n rhaid i weithredwr ei defnyddio i apelio yn erbyn sgôr hylendid bwyd.

18. Mae **Adran 5(7)(d)** yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau pa wybodaeth, ar wahân i'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan gymal 5(7)(a), (b) a (c), y mae'n rhaid i awdurdod bwyd ei hanfon at weithredwr y sefydliad ar ôl newid sgôr hylendid bwyd yn dilyn apêl. **Penderfyniad negyddol.**

Adran 6

19. Mae **Adran 6(2)** yn bŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi pa wybodaeth bellach y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd ei darparu i'r ASB, yn ychwanegol at y wybodaeth yng adran 6(1). **Penderfyniad negyddol.**

Adran 7

20. Mae **Adran 7(3)** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi drwy reoliadau **penderfyniad negyddol** y man ac ym mha fodd y mae'n rhaid arddangos sticer sgorio hylendid bwyd.

Adran 11

21. Mae **Adran 11(2)** yn bŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r ffurf y mae'n rhaid i weithredwr ei defnyddio wrth wneud cais am arolygiad ailsgorio. **Penderfyniad negyddol.**

22. Mae **Adran 11(9)(d)** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi pa wybodaeth, ar wahân i'r hyn sy'n ofynnol o dan adran 11(9) (a), (b) a (c), y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd ei hanfon at weithredydd y sefydliad ar ôl newid sgôr hylendid bwyd yn dilyn arolygiad ail-sgorio. **Penderfyniad negyddol.**

Adran 14

23. Mae **Adran 14(1)** yn bŵer **penderfyniad negyddol** sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdod bwyd ei hanfon at weithredwyr sefydliadau busnes bwyd newydd yn ei ardal o fewn 14 diwrnod i gofrestru'r sefydliad.

Atodlen 1

24. Mae **Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 3** yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau derfynau gwahanol ar gyfer y gosb benodedig a'r gosb ostyngol i'r rhai a ddarperir yn Atodlen 1, Rhan 1, paragraffau 1 a 2. **Penderfyniad negyddol.**

Cychwyn

25. Mae **Adran 25** yn cynnwys pŵer i gychwyn Bil ar amser a gaiff ei ddewis gan Weinidogion Cymru. Fel sy'n arferol ar gyfer pwerau cychwyn, **ni nodir gweithdrefn** ar gyfer y pŵer hwn.

Safbwynt y Pwyllgor

Safbwynt cyffredinol

26. Rydym yn cytuno'n gyffredinol bod cydbwysedd priodol rhwng lefel y manylder ar wyneb y Bil a'r pwerau is-ddeddfu a roddir i Weinidogion Cymru.

27. Ymhellach, rydym yn cytuno, ac eithrio Adran 6(2) a'r pŵer yn Atodlen 1, fod y weithdrefn Cynulliad a gynigir ar gyfer pob pŵer dirprwyedig yn briodol.

Adran 6(2)

28. Mae Adran 6(2) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi drwy reoliadau pa wybodaeth bellach y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd ei darparu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (yn ychwanegol at y wybodaeth yn adran 6(1)). Yn ei llythyr dyddiedig 18 Mehefin 2012,² nododd y Gweinidog nad oedd yn bwriadu defnyddio'r pwerau ar hyn o bryd.

29. Mae swyddogion y Gweinidog, mewn tystiolaeth lafar,³ wedi nodi, er enghraifft, y gallai pŵer o'r fath gael ei ddefnyddio yn y dyfodol i'w gwneud yn ofynnol bod awdurdodau bwyd yn anfon yr adroddiad archwilio a baratowyd ganddynt er mwyn sgorio'r busnes bwyd at yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

30. Rydym yn pryderu rhywfaint y gellid defnyddio'r pŵer i osod gofyniad sylweddol am wybodaeth ychwanegol ar awdurdodau bwyd. Gallai hyn, yn ei dro, godi cwestiynau ynghylch cymesuredd y dylai'r Cynulliad eu hystyried cyn rhoi unrhyw reoliadau ar waith.

31. Yn sgîl hyn, ein barn ni yw y dylai'r pŵer hwn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Nodwn parodrwydd y Gweinidog i ystyried hyn.⁴

Argymhelliad 1 - Rydym yn argymell bod y pŵer yn Adran 6(2) sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau pa wybodaeth bellach y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd ei darparu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Atodlen 1

32. Mae Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 3 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau symiau gwahanol ar gyfer y gosb benodedig a'r gosb ostyngol ar gyfer troseddau o dan y Bil (ar hyn o bryd, fe'u pennir yn £200 ar gyfer cosb benodedig ac yn £150 ar gyfer cosb ostyngol). Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ar hyn o bryd. Nodwn nad yw'r Gweinidog yn bwriadu defnyddio'r pŵer ar hyn o bryd.

33. Oherwydd bod y pŵer yn ymwneud â chosbi dinasyddion ac y gallai fod o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd pe bai'r gosb yn cael ei

² CLA(4)-16-11(p8) – Atodiad i lythyr y Gweinidog: 18 Mehefin

³ Cofnod y Trafodion 216; 2 Gorffennaf 2012

⁴ Cofnod y Trafodion 219; 2 Gorffennaf 2012

chynyddu, rydym o'r farn y dylai'r pŵer hwn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Croesawn barodrwydd y Gweinidog i ystyried hyn.⁵

Argymhelliad 2 - Rydym yn argymell bod y pŵer yn Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 3, i ragnodi gwahanol derfynau ar gyfer y cosbau penodedig a gostyngol i'r rhai a nodir ar wyneb y Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

⁵ Cofnod y Trafodion 243: 2 Gorffennaf 2012

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y ddyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

2 Gorffennaf 2012

Lesley Griffiths AC Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Swyddogion:

Christopher Humphreys Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol

Christopher Brereton Pennaeth Deddfwriaeth ynghylch
Iechyd Amgylcheddol y Cyhoedd,
Llywodraeth Cymru

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

Papur	Cyfeirnod
Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)	CLA(4)-16-12(p3)
Memorandwm Esboniadol i Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)	CLA(4)-16-11(p4)
Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol	CLA(4)-16-11(p5)
Llythyr gan y Cadeirydd at Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	CLA(4)-16-11(p6)
Ymateb y Gweinidog	CLA(4)-16-11(p7)
Atodiad i ymateb y Gweinidog	CLA(4)-16-11(p7)
Llythyr gan y Cadeirydd at Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn gofyn am wybodaeth bellach.	CLA(4)-19-12 (p11)
Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Gweinidog	CLA(4)-19-12 (p11)